# Cyngor Cymuned Ganllwyd

Cofnodion cyfarfod Ionawr 8fed 2020.

1.**Presennol**

Cynghorwyr G.Jones,G.Hughes,C.Edwards ,C.Dixon a P.Jenkins.

2.**Ymddiheuriadau**

C.Roberts, G.Edwards, D.Morris.

3.**Cofnodion mis Rhagfyr 2019.**

Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan Cyng Jones ac eiliwyd gan Cyng Dixon.

4.**Datgan diddordeb.**

Dim datgyniadau.

5.**Materion yn codi.**

Biniau halen - mae'r tywydd da parhaus yn golygu nad oes unrhyw ofynion i ail-lenwi y biniau halen ar hyn o bryd.

Arwydd “ No Entry” ar Llwybr 58- anfonodd Sam Hollingworth (Cyngor Gwynedd) e-bost dyddiedig 7/1 yn nodi ei bod wedi cyfarfod â Andy Braund (NRW) sy'n ymwneud â beicio mynydd yng Nghoed y Brenin. Mae’n ymddangos o'r e-bost fod y cyfarfod wedi arwain at benderfyniad y dylid codi pyst marciwr melyn i dynnu sylw cerddwyr a beicwyr at y llwybr. Mae'n ymddangos hefyd y bydd y llwybr yn cael ei ailgyfeirio ar hyd llinell gerdded cyn yr arwydd dim mynediad.

Cyfarfod wedi'i drefnu gan Sam Hollingworth ar gyfer yr wythnos yn dechrau 20/1/20 i drefnu'r gwaith.

Trafododd y cynghorwyr gynnwys yr e-bost a phenderfynu y dylent gynnal cyfarfod safle cyn ateb y cyngor.

NP5/160/159 Cais cynllunio’r mast- wedi derbyn e-bost dyddiedig 6/1/20 gan Sara Thomas yn nodi eu bod wedi derbyn adroddiad ecoloegol diwygiedig a mae hi yn awr yn disgwyl sylwadau gan ecologydd y parc.

Mae’r cais yn mynd gerbron pwyllgor cynllunio ar Fawrth 4ydd 2020.

Ciosg BT- Mae’r clerc wedi cysylltu a chwmni BT a Delyth Lowe (Cyngor Gwynedd) i gofrestru diddordeb mewn mabwysiadu'r ciosg yn Derwen Deg.

Ni fydd unrhyw ddatblygiadau tan y flwyddyn newydd.

Gwter a chwlferi ardal Bont Ty’n y Groes- Cyfarfu'r clerc a'r Cynghorydd Jenkins â Mr Dewi Evans(Cyngor Gwynedd) i drafod cyflwr yr uchod. Dywedodd Mr Evans y byddai'n trefnu y byddai ei gydweithwyr yn clirio'r malurion o'r gwteri.

**Cynghorydd Sir.**

Dim materion i'w trafod.

**Materion ariannol.**

**Cyson banc Rhagfyr 2019**

| | |
|---|---|
| **Yn y Banc ar ddechrau’r Mis:** | **£6913.54** |
| **Derbyniwyd:** | |
| **Dim** | |
| | |
| **Taliadau:** | |
| **Cyflog/Paye** | **£100.00** |
| **Awdit mewnol (Cyng Gwynedd)** | **£144.00** |
| | |
| **Yn y Banc diwedd mis** | **£6669.54** |

Mae aelodau’r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

**Llythyrau & E-bost.**

Cyngor Gwynedd- Derbyniwyd llythyr gan yr Adran Briffyrdd yn rhestru gwaith i'w wneud gan eu hadran yn ardal Ganllwyd ym mis Ionawr 2020.

**Unrhyw fater arall.**

Cynigiodd y Cynghorydd Edwards ei ymddiswyddiad i'r cyngor ar ôl gwasanaethu fel cynghorydd cymunedol am dros 60 mlynedd. Roedd y cyngor yn siomedig i dderbyn y newyddion ond diolchwyd i Mr Edwards am ei wasanaeth i'r gymuned.